




Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru



Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2015 - 2016

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG 2015 - 2016

MYNEGAI

1. CYDYMFFURFIO Â'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG
2. RHEOLI A GWEINYDDU'R CYNLLUN
3. SGILIAU IAITH GYMRAEG
4. PRIF FFRYDIO'R GYMRAEG
5. DADANSODDI PERFFORMIAD

Cyflwyniad

Y Comisiwn sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r adroddiad hwn; y Prif Weithredwr, Mr Steve Halsall, a ddrafftiodd yr adroddiad. Paratowyd yr adroddiad yn unol â thempled adroddiadau 2015/16 Comisiynydd y Gymraeg.

Corff ymgynghorol yw'r Comisiwn sy'n atebol i Lywodraeth Cymru.

Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn cynnwys 8 gweithiwr amser llawn a dau weithiwr rhan-amser. Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi parhau i weithredu'n dda, ac nid yw'r staff wedi cael unrhyw broblemau ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion gan y cyhoedd.

Cafodd adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn gymeradwyaeth gan Aelodau'r Comisiwn ym mis Mawrth 2016. Mae'r Cynllun i'w adolygu ym mis Mawrth 2018. Cynhaliwyd yr adolygiad i ystyried goblygiadau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a newidiadau sefydliadol yn y Comisiwn. Cyhoeddir y Cynllun yn ddwyieithog ar wefan y Comisiwn.

1. CYDYMFFURFIO Â'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG

a. Adroddiad yn erbyn pob targed yn yr amserlen

Mesur	Targed yr Amserlen	Adroddiad
Cynnal y mesurau hynny sy'n hyrwyddo a hwyluso'r egwyddor o gydraddoldeb wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn unol â'r cynllun hwn.	Parhaus	Mae'r Comisiwn yn defnyddio templedi dwyieithog. Ymgorfforwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn yr holl gyfarwyddiadau desg, ac mae'r rhain wedi'u dosbarthu i'r staff. Mae'r templedi llythyrau yn cynnwys datganiad bod y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Defnyddir rhestr gwirio gan y staff wrth gynnal arolygon etholiadol, sy'n sicrhau sicrwydd ansawdd fersiynau Cymraeg o Adroddiadau a'u bod yn cael eu cyhoeddi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn. Mae aelodau staff yn gallu defnyddio cyfleusterau gramadeg a gwirio sillafu Cymraeg, fel 'Cysgeir' a 'Cysill', i wella hyder ac annog defnyddio Cymraeg ysgrifenedig yn ehangach. Darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn yr holl gyfarfodydd cyhoeddus. Mae'r Cadeirydd yn siaradwr Cymraeg rhugl, ac mae'r Comisiwn wedi'i benodi yn Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg. Y Prif Weithredwr sy'n rheoli pob polisi a menter newydd yn bersonol ac ef yw swyddog monitro'r Cynllun. Mae dau (20%) aelod o staff yn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn siaradwyr Cymraeg.
Sicrhau bod mesurau ychwanegol yn cael eu datblygu i ehangu'r egwyddor i unrhyw bolisi, gweithgaredd neu bryniant newydd.	Parhaus	Mae'r Comisiwn yn paratoi cynllun gweithredol blynyddol sy'n sail i'r gyllideb a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn. Roedd y cynllun ar gyfer 2015-2016 yn cynnwys adnoddau i gyflawni rhwymedigaethau'r Comisiwn a bennwyd yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Bu'r Prif Weithredwr yn rheoli pob polisi a menter newydd yn bersonol ac, fel swyddog monitro'r Comisiwn, sicrhodd cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn
Cael cytundeb Comisiynydd y Gymraeg parthed unrhyw newidiadau	Fel y bo'r angen	Cafodd adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn gymeradwyaeth gan Aelodau'r Comisiwn ym mis Mawrth 2016. Cynhaliwyd yr adolygiad i ystyried goblygiadau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a newidiadau sefydliadol yn y Comisiwn. Ym mis Mawrth 2018 fydd y Cynllun yn cael ei adolygu nesaf. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gofyn am i Gynlluniau Iaith Gymraeg diwygiedig gael eu cyhoeddi ar wefannau sefydliadau heb gael cytundeb y Comisiynydd yn gyntaf. Mae'r cynllun diwygiedig wedi'i gyhoeddi ar wefan y

		sefydliad.
Monitro effeithiolrwydd gweithredu'r mesurau a nodir yn y cynllun hwn.	Parhaus	Bu'r Prif Weithredwr yn monitro'r defnydd priodol o'r Gymraeg ym mhob cam o'r arolygon a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Cyflawnir hyn drwy fonitro rhestri gwirio arolygon, gohebiaeth a galwadau ffôn. Caiff adroddiadau llafar ar gynnydd arolygon (gan gynnwys cyfieithu dogfennau perthnasol) eu rhoi gan Swyddog Arolygon i'r holl staff, ond yn enwedig y Prif Weithredwr, mewn Cyfarfodydd Tîm misol. Ystyriwyd bod y trefniadau'n effeithiol am y derbyniwyd atebion i bapurau ymgynghori gan brif gynghorau, cynghorau cymuned a chynghorau tref, sefydliadau ac unigolion yn Gymraeg. Mae'r Comisiwn yn derbyn galwadau ffôn trwy gyfrwng y Gymraeg.
Bydd llythyrau cychwynnol a llythyrau eglurhaol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.	Cyflawnwyd eisoes	Cyhoeddwyd 100% o lythyrau cychwynnol a llythyrau eglurhaol yn ddwyieithog. Pan fydd yn anfon llythyrau cychwynnol a llythyrau eglurhaol allan, mae'r Comisiwn yn defnyddio templedi dwyieithog. Cynhyrchwyd yr holl gylchlythyrau a llythyrau safonol yn ddwyieithog yn awtomatig gan system TG y Comisiwn.
Caiff templedi ar gyfer llythyrau eu paratoi yn y ddwy iaith a'u diweddarau yn ôl yr angen.	Cyflawnwyd eisoes	Ar hyn o bryd, mae templedi'r holl lythyrau yn ddwyieithog, ac mae'r system TG yn cynhyrchu llythyrau yn ddwyieithog yn awtomatig. Bydd unrhyw dempledi llythyrau fydd yn cael eu paratoi yn ystod 2016/17 yn cael eu cyfieithu'n broffesiynol.
Atebion i ohebiaeth yn Gymraeg yn Gymraeg.	Cyflawnwyd eisoes	Ymatebwyd i 100% o ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg. Proseswyd mwyafrif yr ohebiaeth Gymraeg yn unol â gwasanaeth cyfieithu ar gontract, a darparwyd cyfieithiadau syml gan aelodau staff sy'n siarad Cymraeg.
Yr un amser targed ar gyfer ateb llythyrau yn Gymraeg ag ar gyfer ateb llythyrau yn Saesneg.	Cyflawnwyd eisoes	Mae'r Comisiwn wedi ymateb i 100% o'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg o fewn y graddfeydd amser dynodedig. Roedd y Prif Weithredwr yn gallu monitro'r perfformiad hwn am y proseswyd mwyafrif yr ohebiaeth Gymraeg yn unol â gwasanaeth cyfieithu ar gontract. Ymatebodd aelodau staff sy'n siarad Cymraeg i ohebiaeth achlysurol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog; caiff hyn ei fonitro gan yr anfonir copïau o ymatebion i'r Prif Weithredwr a/neu'r Dirprwy Brif Weithredwr. Hefyd, fe wnaeth presenoldeb dau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg helpu galluogi'r Comisiwn i ymateb ymhell o fewn graddfeydd amser gan y gall gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg gael ei chyfieithu i'r Saesneg a'i throsglwyddo i gydweithwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg i'w hystyried yn ddi-oed.
Ysgrifennu yn Gymraeg at unigolyn, grŵp neu sefydliad y	Cyflawnwyd eisoes	Ysgrifennwyd yn Gymraeg at 100% o unigolion neu sefydliadau sy'n gweithio yn Gymraeg neu

gwyddom eu bod yn gweithio yn bennaf yn Gymraeg neu y gwyddom ei bod yn well ganddynt dderbyn llythyrau yn Gymraeg.		y mae'n well ganddynt dderbyn llythyrau yn Gymraeg. Naill ai darparwyd y deunydd ysgrifenedig gan staff sy'n siarad Cymraeg neu paratowyd dogfennau Cymraeg gan ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar gontract. Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn wrthi'n cysylltu â'r holl gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru i bennu beth yw eu dewis o ran iaith. Mae'r Comisiwn yn cadw cronfa ddata o'r rheiny sy'n dymuno delio â'r Comisiwn yn Gymraeg.
Bydd gohebiaeth ddilynol, yn dilyn cyfarfod wyneb yn wyneb neu sgwrs dros y ffôn yn Gymraeg, yn Gymraeg, oni wneir cais i ni wneud fel arall.	Cyflawnwyd eisoes	Cyhoeddwyd yn Gymraeg 100% o'r holl ohebiaeth, yn dilyn cyfarfodydd wyneb yn wyneb/sgyrsiau ffôn yn Gymraeg.
Cronfa ddata i'w chadw o'r rhai sy'n dymuno delio â ni yn Gymraeg.	Cyflawnwyd eisoes	Mae'r Comisiwn yn cadw cronfa ddata o'r rheiny sy'n dymuno delio â'r Comisiwn yn Gymraeg.
Trosglwyddir galwyr sy'n dymuno siarad Cymraeg i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu bydd cyfieithydd allanol yn eu ffonio'n ôl, neu gallant barhau â'r alwad yn Saesneg. Mewn achosion lle na fydd unrhyw un ar gael sy'n gallu ateb yr ymholiad yn llawn, gofynnir i'r galwyr am fanylion yr ymholiad, neu cânt eu cyngori i gyflwyno'r ymholiad yn ysgrifenedig. Yna, anfonir ateb yn Gymraeg drwy'r post.	Cyflawnwyd eisoes	Atebwyd 100% o alwadau ffôn yn ddwyieithog. Yn ystod y flwyddyn deliwyd â'r holl alwadau ffôn gan aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg gan y Cadeirydd neu aelodau staff sy'n siarad Cymraeg. Cynhelir galwadau ffôn arferol gan y Cadeirydd i staff sy'n siarad Cymraeg yn Gymraeg.
Caiff neges ddwyieithog ei recordio ar y peiriant ateb.	Cyflawnwyd eisoes	Mae peiriant ateb cwbl ddwyieithog gan y Comisiwn ar hyn o bryd. Gosodwyd y peiriant ateb ym mis Tachwedd 2014.
Rhoddir cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd yn ddwyieithog. Bydd aelod o'r Comisiwn neu'r Ysgrifenyddiaeth sy'n siarad Cymraeg yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus. Darperir cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd pan fydd angen wedi'i nodi.	Fel y bo'r angen	Ni chynhaliodd y Comisiwn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Mae gweithdrefnau ar waith yn seiliedig ar arfer blaenorol, i hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn ôl yr angen.
Cynhelir cyfarfodydd a drefnir ymlaen llaw yn Gymraeg os bydd angen.	Fel y bo'r angen	Mae Cadeirydd y Comisiwn a/neu aelodau staff sy'n siarad Cymraeg wedi mynychu cyfarfodydd gyda siaradwyr Cymraeg yn ystod y flwyddyn. Darparwyd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd lle'r oedd angen y Gymraeg.
Cynigir gwasanaeth cyfieithydd allanol dros y ffôn i ymwelwyr dirybudd sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg os na fydd aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.	Fel y bo'r angen	Nid ydym wedi cael unrhyw ymwelwyr dirybudd eleni sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg. Pe bai'r Comisiwn wedi cael ymwelwyr dirybudd sy'n dymuno siarad yn Gymraeg, ac os na fyddai aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, byddem wedi trefnu bod gwasanaeth cyfieithydd allanol dros y ffôn ar gael.

Bydd enw, cyfeiriad a gwybodaeth gysylltiedig am y Comisiwn yn ddwyieithog ar arwyddion swyddfa, cloriau cyhoeddiadau a phob ffurf arall ar arddangosiad cyhoeddus.	Cyflawnwyd eisoes	Yn dilyn deddfu Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, newidiwyd enw'r Comisiwn. Adnewyddwyd arwyddion y Comisiwn ('stondin wib' a 'baneri rholio i fyny') ac roedd pob un ohonynt yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos cyn y Saesneg. Roedd cloriau pob cyhoeddiad yn ddwyieithog, ac eithrio lle cynhyrchwyd cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Pan gynhyrchwyd cyhoeddiadau ar wahân, trefnwyd bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd, gyda'r ddwy iaith yn cael yr un cydraddoldeb o ran fformat, maint ac amlygrwydd. Mae enghreifftiau o'r dogfennau hyn ar gael ar wefan y Comisiwn.
Bydd gwybodaeth print ar bapur pennawd, slipiau cyfarch, cardiau busnes staff a deunyddiau ysgrifennu corfforaethol eraill y Comisiwn yn ddwyieithog. Rhoddir amlygrwydd cydradd i'r ddwy iaith.	Cyflawnwyd eisoes	Roedd 100% o'r wybodaeth print ar bapur pennawd, slipiau cyfarch, cardiau busnes staff a deunyddiau ysgrifennu corfforaethol eraill y Comisiwn yn ddwyieithog, gydag amlygrwydd cydradd yn cael ei roi i'r ddwy iaith.
Cynhyrchir pob cyhoeddiad yn Gymraeg a Saesneg.	Cyflawnwyd eisoes	Cyhoeddwyd y dogfennau canlynol yn ddwyieithog gan y Comisiwn yn ystod 2015/16: Pamffledi/Taflenni; cofnodion; papurau ymgynghori; llyfrynau; arweiniad; Adroddiadau; a, Mapiau. Cynhyrchwyd nifer o ddogfennau yn ddwyieithog. Pan gynhyrchwyd cyhoeddiadau ar wahân, trefnwyd bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd, gyda'r ddwy iaith yn cael yr un cydraddoldeb o ran fformat, maint ac amlygrwydd. Caiff holl gyhoeddiadau'r sefydliad eu cyhoeddi'n ddwyieithog.
Wrth ystyried enwau wardiau etholiadol, byddwn yn ystyried cyngor a roddir gan Gomisiynydd y Gymraeg	Cyflawnwyd eisoes	Cytunwyd ar weithdrefnau lle'r ymgynghorir â Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag enwau lleoedd Cymraeg yn ystod y broses arolygon. Parheir i ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.
Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a byddant yr un mor hygyrch ac o'r un ansawdd, fformat ac amlygrwydd.	Cyflawnwyd eisoes	Cyhoeddwyd 100% o gyhoeddiadau'r Comisiwn naill ai'n ddwyieithog neu gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Roedd cyhoeddiadau ar wahân yr un mor hygyrch â'i gilydd (ar ffurf copi caled ac ar wefan y Comisiwn) ac roeddent o'r un ansawdd, fformat ac amlygrwydd.
Bydd hysbysiadau cyhoeddus a roddir i lyfrgelloedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd y ddwy iaith mewn hysbysiadau cyhoeddus yn cael eu trin yn gyfartal o ran fformat, maint ac amlygrwydd.	Cyflawnwyd eisoes	Cyhoeddwyd 100% o hysbysiadau cyhoeddus yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith o'r un ansawdd, fformat ac amlygrwydd. Mae cyfarwyddiadau desg a rhestri gwirio arolygon yn sicrhau bod hysbysiadau dwyieithog yn cael eu cyhoeddi, a chaiff aelodau staff eu hatgoffa'n rheolaidd am ymrwymadau'r Comisiwn, o dan y Cynllun Iaith Gymraeg, mewn cyfarfodydd tîm misol a thrafodaethau swyddfa ad hoc.
Bydd hysbysiadau i'r wasg yn ddwyieithog ac mewn un ddogfen fel arfer. Fodd bynnag,	Cyflawnwyd eisoes	Cyhoeddwyd 100% o hysbysiadau'r Comisiwn i'r wasg naill ai'n ddwyieithog neu gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu

gellir paratoi hysbysiadau hir ar wahân yn Gymraeg a Saesneg a'u cyhoeddi gyda'i gilydd.		cyhoeddi ar yr un pryd. Roedd cyhoeddiadau ar wahân yr un mor hygyrch â'i gilydd (ar ffurf copi caled ac ar wefan y Comisiwn) ac roeddent o'r un ansawdd, fformat ac amlygrwydd. Eto, mae cyfarwyddiadau desg a rhestri gwirio arolygon yn sicrhau bod hysbysiadau dwyieithog yn cael eu cyhoeddi, a chaiff aelodau staff eu hatgoffa'n rheolaidd am ymrwymadau'r Comisiwn o dan y Cynllun Iaith Gymraeg, mewn cyfarfodydd tîm misol a thrafodaethau swyddfa ad hoc.
Cynhelir arolygon cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg.	Fel y bo'r angen	Ni chynhaliwyd unrhyw arolygon cyhoeddus yn ystod 2015/16.
Cynhelir gwefan ddwyieithog. Bydd diweddariadau i'r wefan yn cael eu gwneud yn y ddwy iaith ar yr un pryd.	Cyflawnwyd eisoes	Defnyddiodd y Comisiwn ei safle Rhyngrwyd cwbl ddwyieithog i ledaenu ei adroddiadau a'i gyhoeddiadau eraill trwy gydol y flwyddyn. Caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg eu diweddaru ar yr un pryd.
Bydd negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y negeseuon hyn yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd.	Cyflawnwyd eisoes	Cyhoeddir 100% o'r hysbysiadau ar y cyfryngau cymdeithasol (fel Facebook a Twitter) yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.
Edrychir ar swyddi i ystyried a fyddai'n hanfodol neu'n ddymunol cael siaradwyr Cymraeg, a nodir hyn yn y disgrifiadau swyddi.	Fel y bo'r angen	Ni hysbysebwyd unrhyw swyddi gan y Comisiwn yn ystod 2015/16.
Bydd disgrifiadau swyddi ar gael yn ddwyieithog trwy ddolen ar wefan Swyddi'r Gwasanaeth Sifil.	Fel y bo'r angen	Mae'r yr holl ddisgrifiadau swyddi ar gael yn ddwyieithog, gyda dolenni at y ddwy fersiwn yr un mor hygyrch â'i gilydd; fodd bynnag, fel y dywedwyd, ni hysbysebwyd unrhyw swyddi gan y Comisiwn yn ystod 2015/16.
Caiff y polisi iaith a'r sgiliau ieithyddol a ddisgwylir gan ddeiliad y swydd eu nodi ym mhob gwybodaeth recriwtio. Gallu ieithyddol fydd un o nifer o sgiliau y dylid eu cadw mewn cof wrth benodi staff a chaiff ei asesu yn erbyn y lefel o sgiliau sydd ei hangen ar gyfer y swydd a nodwyd yn flaenorol.	Fel y bo'r angen	Rhoddir gwybod i ymgeiswyr swyddi am y polisi iaith. Pennir sgiliau ieithyddol darpar ddeiliaid swyddi yn y wybodaeth recriwtio, lle bo angen, ac asesir sgiliau'r ymgeiswyr mewn cyfweiliad. Ystyrir gofynion ieithyddol swyddi yn ofalus yng nghyfarfodydd y Comisiwn cyn cyhoeddi'r hysbysebion. Fodd bynnag, fel y dywedwyd, ni hysbysebwyd unrhyw swyddi gan y Comisiwn yn ystod 2015/16.
Rydym yn annog ac, o bosibl, mewn rhai amgylchiadau, yn ei gwneud yn ofynnol i staff ymgymryd â hyfforddiant iaith priodol, er enghraifft, i helpu gydag ynganu enwau lleoedd Cymraeg. Byddwn yn ystyried cefnogaeth ariannol, mewn achosion priodol, pe bai staff eisiau ymgymryd â hyfforddiant iaith priodol.	Fel y bo'r angen	Dechreuodd un aelod o Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn ar gwrs Cymraeg ffurfiol yn ystod 2015/16. Derbyniodd yr aelod o staff gefnogaeth ac anogaeth gan gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Atgoffwyd aelodau staff bod y Comisiwn yn ystyried darparu cefnogaeth ariannol, mewn achosion priodol, pe baent yn dymuno ymgymryd â hyfforddiant iaith. Caiff aelodau staff nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hyfforddi'n rheolaidd gan staff sy'n siarad Cymraeg o ran ynganu ac ieithwedd sylfaenol. Mae aelodau o staff nad ydynt yn siarad

		Cymraeg yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd gan staff sy'n siarad Cymraeg ynglŷn ag ynganu a geiriad sylfaenol.
Bydd yr angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei asesu.	Parhaus	Ni wnaeth unrhyw aelodau o Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn gais i ymgymryd â hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai cais felly wedi'i wneud, byddai'r Comisiwn wedi ystyried y cais a'i ddarparu, pe bai'n briodol.
Bydd y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu'n gyson.	Parhaus	Ymgorfforwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn yr holl gyfarwyddiadau desg a rhestr gwirio, ac mae systemau'r swyddfa yn golygu mai'r Prif Weithredwr yw'r swyddog monitro ac ef sy'n cymeradwyo mwyafrif yr allbwn o'r Ysgrifenyddiaeth. Bu'r Prif Weithredwr yn monitro'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob cam o arolwg. Bu'r Prif Weithredwr yn rheoli pob polisi a menter newydd yn bersonol ac, fel swyddog monitro'r Comisiwn, sicrhodd cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn. At hynny, tynnodd y Prif Weithredwr sylw aelodau'r staff at fentrau Cynlluniau newydd.
Bydd pob aelod o'r staff yn derbyn canllaw ysgrifenedig manwl ar ffurf cyfarwyddiadau desg sy'n cynnwys defnyddio'r Gymraeg yng ngwaith y Comisiwn, a rhoddir copïau o'r Cynllun Iaith Gymraeg iddynt.	Parhaus	Derbyniodd pob aelod o'r staff wybodaeth am ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg, gan gynnwys cyngor ynghylch gohebiaeth, fel rhan o gyfarwyddiadau desg a rhestr gwirio arolygon y Comisiwn. Gan mai dim ond 10 aelod o staff sydd yn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, gyda'r mwyafrif ohonynt yn gweithio mewn amgylchedd agored, gellir lledaenu gwybodaeth yn hawdd, ac mae aelodau'r staff yn arbennig o wybodus ynglŷn ag ymrwymiad y Comisiwn i'r Gymraeg. Cedwir y Cynllun mewn Mynegai o bolisïau, rheoliadau, codau a chyfarwyddiadau, a gall pob aelod o'r staff fynd ato drwy eu cyfrifiaduron. Hysbyswyd aelodau'r staff am Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn sydd wedi'i ddiwygio'n ddiweddar mewn cyfarfod tîm misol.
Bydd angen manyleb systemau TG newydd neu rai a gaiff eu newid er mwyn bodloni anghenion y Cynllun Iaith Gymraeg.	Parhaus	Caiff systemau TG newydd / systemau a gaiff eu newid eu prynu trwy ddarparwyr / contractwyr Llywodraeth Cymru. Mae CFFDLC yn gallu defnyddio systemau sy'n bodloni anghenion y Cynllun.
Bydd tendrau ar gyfer gwasanaethau cyfieithu yn parhau i gael eu hasesu ar gyfer gallu ac ansawdd gwasanaeth yn ogystal â phris.	Parhaus	Mae Gwasanaethau Cyfieithu ar gyfer y Comisiwn ar gontract, a byddant yn cael eu hadolygu pan ddaw'r contract hwn i ben yn 2017.
Bydd cyfieithiadau'n cael eu monitro gan staff er mwyn sicrhau ansawdd y cyhoeddiad	Parhaus	Mae aelodau staff yn y Comisiwn sy'n siarad Cymraeg yn sicrhau ansawdd cyfieithiadau yn rheolaidd. Mae taflen fonitro wedi'i sefydlu, lle caiff unrhyw faterion/pryderon eu hadrodd. Mae'r Rheolwr Cymorth Busnes yn adolygu'r daflen fonitro yn rheolaidd. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r cyfieithwyr lle codwyd

		pryderon monitro. Defnyddir rhestri gwirio gan y staff wrth gynnal arolygon etholiadol, sy'n sicrhau sicrwydd ansawdd fersiynau Cymraeg o Adroddiadau a'u bod yn cael eu cyhoeddi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn.
Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r cynllun. Bydd y Comisiwn yn sicrhau trwy drefniadau contractio bod y contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o'r cynllun wrth ddelio â'r cyhoedd. Bydd y Comisiwn yn nodi'r gofynion o ran defnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau tendro a chontractau.	Parhaus / fel y bo'r angen	Cyhoeddodd y Comisiwn gontract newydd ar gyfer Porth Ymgynghori Ar-lein yn 2015/16. Pennwyd y defnydd o'r Gymraeg yn y contract, gan fod y cwmni dan sylw yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran y Comisiwn. Ni fydd contract y Porth yn cael ei adolygu hyd nes 2018.
Caiff crynodeb o'r adroddiad ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn. Bydd Adroddiad Blynyddol y Comisiwn yn cyhoeddi ein mesurau ar gyfer gwasanaethu'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.	Ym mis Medi bob blwyddyn	Caiff crynodeb o'r adroddiad ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn, a gyhoeddir ym mis Medi 2016. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cyhoeddi mesurau'r Comisiwn ar gyfer gwasanaethu'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.
Bydd pob cyhoeddiad a chyhoedduswydd sy'n gysylltiedig ag arolygon y Comisiwn – sef ein prif gyswllt â'r cyhoedd – yn ei gwneud yn eglur y gall y cyhoedd ddelio â'r Comisiwn yn Gymraeg. Bydd cyhoeddiadau Saesneg yn rhoi gwybod bod fersiwn Gymraeg ar gael.	Parhaus	Bydd pob cyhoeddiad / cyhoedduswydd sy'n gysylltiedig ag arolygon y Comisiwn yn ei gwneud yn glir y gall y cyhoedd ddelio â'r Comisiwn yn Gymraeg. Caiff cyhoeddiadau eu cynhyrchu naill ai'n ddwyieithog neu ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg. Bydd cyhoeddiadau Saesneg yn y dyfodol yn rhoi gwybod bod fersiynau Cymraeg ar gael hefyd. Mae cyhoeddiadau yn cynnwys llinell sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd bod y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

2. RHEOLI A GWEINYDDU'R CYNLLUN

a. ***Adroddiad ar ofynion mewn perthynas â'r Gymraeg mewn contractau, gan esbonio unrhyw drefniadau i adolygu neu gryfhau'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg***

Fel y nodwyd uchod, cyhoeddodd y Comisiwn gontract newydd ar gyfer Porth Ymgynghori Ar-lein yn 2015/16. Lle bo'n briodol, mae'r Comisiwn yn pennu'r gofynion ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg mewn dogfennau tendr a chontractau. Pennwyd y defnydd o'r Gymraeg yn y contract uchod, gan fod y cwmni dan sylw yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran y Comisiwn.

Oherwydd natur gwaith y Comisiwn, caiff mwyafrif y gwasanaethau i'r cyhoedd eu darparu'n uniongyrchol gan aelodau staff yn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn. Lle darperir gwasanaethau i'r cyhoedd ar ran y Comisiwn (er enghraifft, pan gaiff gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ei ddarparu yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus), mae'r rheiny sy'n tendro yn cael gwybod am Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn.

Bwriedir cynnwys cyfeiriad at Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn mewn dogfennau tendr a chontractau yn y dyfodol.

b. *Tystiolaeth fod trefniadau llywodraethu a chraffu mewnol cadarn ar waith ar gyfer y cynllun iaith*

Bu'r Prif Weithredwr yn rheoli pob polisi a menter newydd yn bersonol ac, fel swyddog monitro'r Comisiwn, sicrhodd cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn. Cyflawnir hyn drwy fonitro rhestri gwirio arolygon, gohebiaeth a galwadau ffôn. Caiff adroddiadau llafar ar gynnydd arolygon (gan gynnwys cyfieithu dogfennau perthnasol) eu rhoi gan staff i'r holl gydweithwyr, ond yn enwedig y Prif Weithredwr, mewn Cyfarfodydd Tîm misol.

Mae rôl y Cadeirydd fel siaradwr Cymraeg rhugl wedi bod yn bwysig, gan fod y Comisiwn wedi'i benodi yn Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg. Hefyd, mae dau (20%) aelod o staff yn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn siaradwyr Cymraeg sydd ar gael i: ateb ymholiadau gan gydweithwyr yn ymwneud â'r Gymraeg; ateb ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg; a sicrhau ansawdd cyhoeddiadau Cymraeg.

Gan mai dim ond 10 aelod o staff sydd yn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, gyda'r mwyafrif ohonynt yn gweithio mewn amgylchedd cynllun agored, gellir lledaenu gwybodaeth yn hawdd, ac mae aelodau'r staff yn arbennig o wybodus ynglŷn ag ymrwymiad y Comisiwn i'r Gymraeg. Yn ogystal, caiff aelodau staff eu hatgoffa'n rheolaidd am oblygiadau'r Cynllun, trwy, er enghraifft, cyfarfodydd tîm, cyfarwyddiadau desg a rhestri gwirio.

Ymgorfforwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn yr holl gyfarwyddiadau desg diwygiedig a rhestri gwirio arolygon, ac mae systemau'r swyddfa yn golygu mai'r Prif Weithredwr sy'n cymeradwyo'r mwyafrif o'r allbwn o'r Ysgrifenyddiaeth. Cynhyrchodd system TG y Comisiwn pob cylchlythyr a llythyrau safonol yn ddwyieithog yn awtomatig.

Bu'r Prif Weithredwr yn monitro'r defnydd priodol o'r Gymraeg ym mhob cam o'r arolygon a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd y trefniadau'n effeithiol am y derbyniwyd atebion i bapurau ymgynghori gan brif gynghorau, cynghorau cymuned a chynghorau tref, sefydliadau ac unigolion yn Gymraeg.

Cafodd adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn gymeradwyaeth gan Aelodau'r Comisiwn ym mis Mawrth 2016. Cynhaliwyd yr adolygiad i ystyried goblygiadau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a newidiadau sefydliadol yn y Comisiwn. Dywedwyd wrth holl aelodau'r staff am y Cynllun diwygiedig yn ystod cyfarfod tîm. Roedd y Cynllun diwygiedig ar gael ym mhapurau cyfarfodydd y Comisiwn, y mae pob aelod o'r staff yn gallu mynd atynt yn hawdd.

c. Crynodeb o gwynion dilys a ddaeth i law a'r camau a gymerwyd

Anogir aelodau'r cyhoedd i anfon awgrymiadau ymlaen ar gyfer gwelliannau neu gwynion ynghylch Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch y gwasanaeth Cymraeg a ddarparwyd yn ystod blwyddyn yr adroddiad.

ch. Tystiolaeth o'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd y cynnwys iaith Gymraeg ar y wefan gorfforaethol / cynlluniau ar gyfer cynyddu a gwella'r cynnwys iaith Gymraeg

Mae gwefan y Comisiwn yn gwbl ddwyieithog. Aelodau staff yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am ddiweddarau gwefan y Comisiwn, a chânt eu hatgoffa'n gyson o gyfrifoldebau'r Comisiwn o dan y Cynllun Iaith Gymraeg. Mae cyfarwyddiadau desg a rhestri gwirio yn helpu sicrhau bod yr holl gynnwys ar y wefan gorfforaethol yn ddwyieithog. Yn ogystal, caiff ansawdd yr holl gyhoeddiadau ei wirio gan aelodau o staff y Comisiwn sy'n siarad Cymraeg cyn eu cyhoeddi ar y wefan.

3. SGILIAU IAITH GYMRAEG

a. Gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu ac adroddiad ar y data

Gan fod Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn fach, mae sgiliau iaith y staff yn hysbys heb yr angen am gynnal arolwg. Mae Cadeirydd y Comisiwn (20%) a dau aelod staff o'r Ysgrifenyddiaeth (20%) yn siaradwyr Cymraeg. Mae aelod arall o staff wedi dechrau ar gwrs ffurfiol Cymraeg gyda'r nos.

Ni hysbysebwyd unrhyw swyddi yn ystod 2015/16.

b. Tystiolaeth o fuddsoddi mewn hyfforddiant Cymraeg ac esboniad o gamau eraill a gymerwyd i wella sgiliau'r gweithlu

Dechreuodd un aelod o Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn gwrs Cymraeg yn ystod y flwyddyn. Atgoffwyd aelodau staff fod y Comisiwn yn ystyried darparu cymorth ariannol, mewn achosion priodol, pe baent yn dymuno cael hyfforddiant iaith.

Mae aelodau staff yn yr Ysgrifenyddiaeth sy'n siarad Cymraeg yn darparu arweiniad a hyfforddiant i gydweithwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg ynglŷn ag ynganiad enwau lleoedd Cymraeg a chyfarchion sylfaenol, yn ôl yr angen.

c. Tystiolaeth o ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o iaith

Ymgwymerodd aelodau staff o Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn â hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Fel y nodwyd uchod, dim ond 10 aelod o staff sydd gan Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, gyda'r mwyafrif ohonynt yn gweithio mewn amgylchedd cynllun agored, a gellir lledaenu gwybodaeth yn hawdd; felly, mae aelodau'r staff yn arbennig o wybodus ynglŷn ag ymrwymiad y Comisiwn i'r Gymraeg, ac yn gefnogol.

4. PRIF FFRYDIO'R GYMRAEG

a. *Gwybodaeth am drefniadau ar gyfer asesu effaith polisiâu ar yr iaith Gymraeg ac unrhyw gamau a gymerwyd i adolygu trefniadau i sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal*

Mae'r Prif Weithredwr yn rheoli pob polisi a menter newydd yn bersonol ac, fel swyddog monitro'r Comisiwn, sicrhodd cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn. Hefyd, Mae Cadeirydd y Comisiwn, fel siaradwr Cymraeg rhugl, wedi'i benodi yn Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg.

Pan gaiff penderfyniadau polisi eu gwneud, bydd y Comisiwn, fel mater o drefn, yn ystyried yr effaith y gallai penderfyniadau felly ei chael ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; mae hyn yn arbennig o wir am fod y ddelwedd gadarnhaol o'r Gymraeg wedi gwreiddio'n drwyadl yng ngweithrediadau'r Ysgrifenyddiaeth o ddydd i ddydd. Yn ystod blwyddyn yr adroddiad, cyhoeddwyd pob dogfen bolisi yn ddwyieithog.

Pan fydd y Comisiwn yn ymgynghori ynghylch penderfyniadau polisi, cyhoeddir yr ymgynghoriad a'r ddogfennaeth eglurhaol yn ddwyieithog, a chroesewir ymatebion yn Gymraeg neu yn Saesneg (gellir gweld enghreifftiau o ddogfennau o'r fath ar wefan y Comisiwn).

5. DADANSODDI PERFFORMIAD

a. *Nodi risgiau a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf*

Mae'r Comisiwn yn paratoi cynllun gweithredol blynyddol sy'n sail i'r gyllideb a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn. Roedd y cynllun ar gyfer 2015-2016 yn cynnwys adnoddau i gyflawni rhwymedigaethau'r Comisiwn a bennwyd yn y Cynllun Iaith Gymraeg ac i drosglwyddo i Safonau'r Iaith Gymraeg. Bydd cynllun gweithredol blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2016-17 hefyd yn cynnwys adnoddau i sicrhau y bydd rhwymedigaethau'r Comisiwn o dan y Cynllun yn cael eu cyflawni.

Diwygiodd y Comisiwn ei Gynllun Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 2016; ar hyn o bryd mae hwn yn cael ei gyfieithu/wirio cyn ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi bod yn paratoi ar gyfer Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg, ar ôl cyflwyno'i dystiolaeth i Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Chwefror 2015. Derbyniodd y Comisiwn Hysbysiad Cydymffurfio Drafft gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac mae wrthi'n paratoi ei ymateb i'w gyflwyno cyn y terfyn amser ymgynghori ym mis Mai 2016. Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn yn paratoi Cynllun Gweithredu i hwyluso trosglwyddo o'r Cynllun Iaith Gymraeg i'r Safonau Iaith Gymraeg.

Mae nifer o gyfarwyddiadau desg a thempledi llythyrau'r Comisiwn wedi'u diwygio; ystyriwyd gofynion o dan y Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o'r broses honno. Yn ogystal, bwriedir cynnwys cyfeiriad at Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn (a, maes o law, Safonau'r Gymraeg y bydd angen i'r Comisiwn gydymffurfio â nhw) mewn dogfennau tendr a chontractau yn y dyfodol.

b. *Enghreifftiau o arfer da perthnasol*

Mae'r Comisiwn yn cael ei galonogi gan y ffaith na dderbyniwyd unrhyw gŵynion ynglŷn â'r gwasanaeth Cymraeg a ddarparwyd yn ystod blwyddyn yr adroddiad.

Mae'r Comisiwn wrthi'n ymgymryd â'r broses o gysylltu â phob un o'r cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru (sydd ymhlith ein prif randdeiliaid) i gadarnhau a fyddai'n well ganddynt dderbyn gohebiaeth / dogfennaeth yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

Mae dau (20%) aelod o staff yn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn siaradwyr Cymraeg sydd ar gael i: ateb ymholiadau gan gydweithwyr yn ymwneud â'r Gymraeg; ateb ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg; cysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi nodi'r Gymraeg fel eu dewis iaith; a sicrhau ansawdd cyhoeddiadau Cymraeg.

Mae'r Comisiwn yn defnyddio templedi dwyieithog. Mae cyfarwyddiadau desg wedi'u dosbarthu i'r staff, er mwyn sicrhau y cyhoeddir pob agwedd ar waith y Comisiwn yn ddwyieithog. Defnyddir rhestr gwirio gan y staff wrth gynnal arolygon etholiadol, sy'n sicrhau sicrwydd ansawdd fersiynau Cymraeg o'r Adroddiadau a'u bod yn cael eu cyhoeddi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn. Mae aelodau staff yn gallu defnyddio cyfleusterau gramadeg a gwirio sillafu Cymraeg, fel 'Cysgeir' a 'Cysill' i wella hyder ac annog defnyddio Cymraeg ysgrifenedig yn ehangach.

Ni hysbysebwyd unrhyw rolau gan y Comisiwn yn ystod 2015/16; fodd bynnag, pe bai wedi gwneud byddai wedi dynodi'r dymuniad am y Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn deliwyd â'r holl alwadau ffôn gan aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg gan y Cadeirydd neu gan aelodau staff sy'n siarad Cymraeg. Cynhelir galwadau ffôn arferol gan y Cadeirydd i staff sy'n siarad Cymraeg yn Gymraeg fel arfer.

Mae gwefan y Comisiwn yn gwbl ddwyieithog, a chyhoeddir pob hysbysiad ar y cyfryngau cymdeithasol (fel Facebook a Twitter) yn Gymraeg ac yn Saesneg gyda'i gilydd.

Darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod cyhoeddus.

Yn dilyn deddfu Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, newidiwyd enw'r Comisiwn. Mae arwyddion y Comisiwn ('stondin wib' a 'baneri rholio i fyny') yn eu lle ac yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos cyn y Saesneg.

Cyhoeddwyd y dogfennau canlynol yn ddwyieithog gan y Comisiwn: pamffledi/taflenni; cylchlythyr; cofnodion; papurau ymgynghori; llyfrynau; arweiniad; adroddiadau; derbynebaw; a, mapiau. Pan gyhoeddwyd dogfennau Cymraeg a dogfennau Saesneg, trefnwyd bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd, gyda'r ddwy iaith yn cael yr un cydraddoldeb o ran fformat, maint ac amlygrwydd. Mae enghreifftiau o'r dogfennau hyn ar gael ar wefan y Comisiwn.

Mae aelodau staff y Comisiwn sy'n siarad Cymraeg yn cael y bathodynau/sticeri Siaradwr Cymraeg; cânt eu hannog i wisgo'r rhain pan fyddant allan o'r swyddfa ar fusnes swyddogol er mwyn annog aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg i ddechrau sgysiau yn Gymraeg.

Penodwyd dau Gomisiynydd newydd ym mis Medi 2015; roedd rhan o'u proses sefydlu'n cynnwys ymwybyddiaeth o Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn. Adroddodd y ddau Gomisiynydd eu bod yn ymwybodol iawn o agwedd gefnogol y sefydliad a'r aelodau staff tuag at y Cynllun Iaith Gymraeg ar ôl y cyfnod sefydlu.

c. *Tystiolaeth o ymdrechion i fonitro ansawdd gwasanaethau iaith Gymraeg a / neu arolygon defnyddwyr gwasanaeth*

Ymgorfforwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn yr holl gyfarwyddiadau desg cyfredol ac mae systemau'r swyddfa yn golygu mai'r Prif Weithredwr yw'r swyddog monitro ac ef sy'n cymeradwyo mwyafrif yr allbwn o'r Ysgrifenyddiaeth.

Diwygiodd y Comisiwn ei Gynllun Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 2016; ar hyn o bryd mae hwn yn cael ei gyfieithu/wirio cyn ei gyhoeddi. Mae'r Comisiwn wedi bod yn paratoi ar gyfer Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg, ar ôl cyflwyno'i dystiolaeth i Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Chwefror 2015. Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg adroddiad ym mis Mehefin 2015; derbyniodd y Comisiwn Hysbysiad Cydymffurfio Drafft ac mae wrthi'n paratoi ei ymateb, a fydd yn cael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg cyn y terfyn amser ymgynghori ym mis Mai 2016.

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn, sydd wedi'i gyhoeddi ar y wefan, yn gwahodd darllenwyr i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Hyd yma, ni ddaeth unrhyw awgrymiadau i law.

Caiiff ansawdd yr holl gyhoeddiadau Cymraeg ei sicrhau gan aelodau staff yr Ysgrifenyddiaeth sy'n siarad Cymraeg cyn eu cyhoeddi.